CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL 16 CHWEFROR 2010

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng H W Roberts

Cynghorwyr
H Edwards, R Anderson, O T Owen, W T Owen, I C Thomas, A W Bohana, A Kirk, R Bonner Pritchard, M Thomas, A Roberts

Siaradwyr Gwadd : Colin Jones a Iwan ap Trefor
Par: Parcio Preswylwyr

Croesawyd y ddau gan Y Maer

Rhoddwyd manylion bod cynllun peilot yn digwydd mewn 4 safle sef
Hirael – Bangor
William St – Caernarfon
Ala uchaf ac Isaf – Pwllheli
Springfield st & Arran st- Dolgellau

Cost fydd £50 am y cerbyd cyntaf ac yna £80 am ail gerbyd

Er mwyn i'r cynllun symud yn ei flaen yng Nghaernarfon, mi fydd y preswylwyr i gyd yn derbyn pamffledi holiadur trwy'r drws ac mae angen o leiaf 50% o gefnogaeth cyn parhau.

Y Grwp Rheoli Parcio sydd wedi penderfynu pa safleoedd i gychwyn arnynt, ac yn ddibynnol ar lwyddiant y cynllun peilot mi fyddant yn edrych ar safleoedd eraill yn y dyfodol.

Mae'r costau yn cae eu cyfiawnhau gan fod cymaint o waith i farcio strydoedd, gosod arwyddion, gorchmynion cyfreithiol

Nodwyd y bydd elfen o "limited waiting" o fewn y cynllun

Mi fydd y nifer o "permits" yn dibynnu ar faint o le sydd yna ar y stryd

Gofynnwyd i'r clerc dderbyn manylion llawn y costau

Diolchodd y Maer i'r ddau am eu cyflwyniad cynhwysfawr

1. Ymddiheuriadau

Cyng W R Owen a Cyng M Powell Jones (salwch), Cyng M Davies (gweithio) , Cyng G Parry (cyfarfod)

2. Datgan Buddiant Personol

Cyng I C Thomas – Cynllunio a trwyddedu
Cyng W T Owen – Cynllunio a trwyddedu
Cyng R Anderson – Cynllunio a trwyddedu
Cyng H Edwards – Cynllunio

3. Eitemau brys

Dim un

4.Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd

Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

5. Cyfrifon

I gymeradwyo biliau i'w talu

Penderfynwyd

Derbyn a'u talu

6. Cyngor Gwynedd

Cynlluniau Ardal – Holiadur

(gyda hawl i weithredu)

Penderfynwyd

Diolch i'r tri cynghorydd wnaeth ymateb a derbyn

7. Llythyr Royal Navy

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

8. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Prosiect gwella amgylchedd lleol

Penderfynwyd

Clerc i holi os fydd y cynllun ar gael flwyddyn ariannol nesaf gan nad oes amser i roi cais i mewn rwan, ac yna i'r gweithgor ystyried prosiectau i'r dre a gwneud cais amserol

9. Llythyr Eric Jones

Par: Parcio ar y Maes
Yn dilyn trafodaeth eang ar faint o fathodynnau glas sydd yn cael eu defnyddio i barcio ar y Maes , a faint o weithiau mae'r Cynghorwyr Sir yn ceisio datrys y problem

Penderfynwyd
Diolch i Mr Jones am ei lythyr, a'i ddanfon ymlaen i Mr Harri Thomas ,Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i ofyn wrtho ddod draw i'r Cyngor i drafod y mater yn bersonol a Cynghorwyr i baratoi cwestiynau o flaen llaw

10. Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon

Enwebu Cynghorydd
Penderfynwyd
Enwebu Cyng I C Thomas

11. Cyngor Iechyd Cymuned

Datganiad Terfynol a Strwythurau
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

12. Unllais Cymru

Cynnal Cymru – Holiadur
Penderfynwyd
Pawb i gwblhau i'r clerc o fewn yr wythnos

13. Cyngor Gwynedd

Ymgynghoriad Cyhoeddus – Cynllun Peilot Pwllheli

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

14. Cyngor Gwynedd

(I C Thomas , W T owen a R anderson allan o'r ystafell)
Trwyddedu – Neuadd y Farchnad
Penderfynwyd
Dim yn fodlon gwneud penderfyniad

15.Llythyr preswylwyr Glan y Mor

Penderfynwyd

Diolch i'r trigolion
Gofyn wrth Cyngor Sir i baratoi cynlluniau i ateb y problemau , ac i geisio chwilio am ffynonellau ariannol i ariannu, sicrhau bod y cynlluniau yn mynd i Gillespies gan obeithio y gellir eu cynnwys yn eu gwaith hwy.

16. Diweddariad o gyfarfod Grwp Cydlynu Safle Treftadaeth Gan Y Maer Cyng. Hywel Roberts

Nodwyd bod y Grwp yn cyfarfod unwaith y flwyddyn
Digwyddiadau Cultural Olympiad wedi bod yn digwydd yng Nghaernarfon ac a parhau (angen cyhoeddusrwydd gwell)

Gobeithir gweld gwaith ar Porth Yr Aur, Porth Mawr yn agoriad i'r waliau , gwelliannu i'r Promenade

3 prosiect dehongli – Tywysogion Gwynedd, Cestyll a Owain Glyndwr

Penderfynwyd

Diolch a derbyn yr adroddiad

17. Diweddariad o gyfarfod Unllais gan y Cyng. Huw Edwards

Nodwyd mae'r Clerc a fynychodd y cyfarfod fel siaradwr gwadd ar fyr rybudd i drafod Relay for Life- clerc yn nodi mai digwyddiad newydd cyffroes yw hwn 26 / 27 Mehefin . 20 awr o digwyddiad i'r teulu oll yn Treborth , Bangor i godi arian i Ymchwil Cancr a bod angen cefnogaeth y Cynghorwyr i chwilio am dimau, gwirfoddolwyr ac adloniant

Penderfynwyd

Diolch a derbyn yr adroddiad

18.Diweddariad Cyng. W. T. Owen

Par: Cyfarfod - Ysgol yr Hendre
Y pryderon oedd bod ystafelloedd am cael eu ddefnyddio ar gyfer partïon, ond nad oedd hyn yn gywir
Pryderon am gaeau peldroed.
Oherwydd y gwaith archeolegol ni fydd rhan fwyaf o Cae Phillips yn cael ei ddefnyddio
Pensaer yn cyfarfod efo staff a llywodraethwyr.
Pryderon am fynedfa i'r ysgol, ond trafodaethau yn mynd ymlaen i geisio prynu tamaid o dir preifat
Mi fydd cais cynllunio yn dod gerbron
Nifer o ddisgyblion dim mwy na 450

Penderfynwyd

Diolch a derbyn yr adroddiad

19.Cwestiynau

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 7.45

Arwyddwyd..... Dyddiad .....